Ysgol Uwchradd **LLANIDLOES** High School

**G**iving **O**pportunities **F**or **A**ll to **L**earn

**Pennaeth / Headteacher:** Mr D Owen
Llangurig Road, Llanidloes, Powys, SY18 6EX
**Ffôn / Tel:** 01686 412289
**Ffacs / Fax:** 01686 413812
**EBost / Email:** office@llanidloes-hs.powys.sch.uk
**Gwefan / Website:** www.llanidloeshighschool.co.uk

**Diwrnodau Trosglwyddo Ysgol Uwchradd 28ain a 29ain Mehefin 2023**

24ain Ebrill 2023

Annwyl Riant/Gofalwr,

Gobeithiwn a hyderwn fod eich plentyn yn gyffrous dros ben am ymuno ag Ysgol Uwchradd Llanidloes ym mis Medi.

Yn gyntaf oll, efallai y byddai gennych ddiddordeb mewn gwybod bod eich plentyn yn ymuno â charfan Blwyddyn 7 a oedd yn orlawn o 25 o ddisgyblion. Rydym mor ddiolchgar bod enw da gan yr ysgol fel un o'r ysgolion sy'n perfformio orau a hapusaf yng Nghymru gan ddenu disgyblion o bell ac agos.

**Fydd diwrnodau pontio?**

Bydd **diwrnodau pontio i ddisgyblion Blwyddyn 6 ar yr 28ain a'r 29ain o Fehefin**. Ein nod yw rhoi cyflwyniad dymunol iawn i'ch plentyn i fywyd ysgol uwchradd trwy wersi blasu hwyliog, taith o amgylch safle'r ysgol (gan gynnwys ein cae 3G newydd sbon!) a chyfle i dreulio amser gyda'u hathrawon a ffrindiau newydd. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu iddynt gael blas arni fel y byddant yn hiraethu am weld diwedd gwyliau'r haf!

**Noson rieni nos Iau Mehefin 29ain**

Cynhelir noson rieni i rieni Blwyddyn 6 nos Iau 29ain o Fehefin. Bydd Mr. Owen yn annerch y rhieni a bydd staff ar gael i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan rieni/gofalwyr.

**Cludiant**

**Ni fydd disgyblion yn cael eu hebrwng o'r ysgol gynradd ac yn ôl**.

Gall disgyblion sy'n byw gerllaw gerdded i'r ysgol.

Bydd y disgyblion a fydd yn teithio atom ar fws ym mis Medi yn defnyddio'r un mannau codi a gollwng bysiau ar gyfer y diwrnod pontio. Gobeithiwn y bydd hyn yn cefnogi pontio o ran trefnu cludiant.

Anfonwn fanylion am yr amseroedd a'r mannau casglu yn agosach at yr amser ar ôl ymgynghori â'r darparwyr trafnidiaeth.

Fel arall, mae croeso i chi gludo eich mab/merch i'r ysgol mewn car.

Ar ddiwedd y dydd, bydd disgyblion yn mynd adref yn yr un modd ag y daethant i Ysgol Uwchradd Llanidloes yn y bore.

**Cinio**

Dylech ddarparu byrbrydau, pecyn bwyd a lluniaeth i'ch mab/merch.

**Cyrraedd**

Bydd aelod staff yn cyfarfod â'r disgyblion yn y bae bysiau ac yn eu hebrwng i neuadd yr ysgol iddynt gael croeso cynnes cyn dechrau mynychu eu gwersi.

**Dillad**

Dylai disgyblion wisgo gwisg eu hysgol gynradd ar gyfer y diwrnod trosglwyddo os gwelwch yn dda.

**Offer**

Dylai disgyblion ddos ag offer a phapur ysgrifennu i'r diwrnod.

**Sut mae cysylltu â rhywun yn yr ysgol?**

Rydym wedi ceisio cofio popeth, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach gallwch gysylltu â ni ar y ffôn ar 01686 412289, neu drwy law cyfeiriad e-bost y swyddfa sy'n cael ei weld bod dydd: office@llanidloes-hs.powys.sch.uk Ysgrifennwch 'Blwyddyn 6' ac enw eich plentyn yn y llinell destun a bydd yn cael ei anfon yn syth ataf i mi gael ymateb.

Yn y cyfamser, rydym yn dal i fod yn gyffrous iawn am groesawu eich plentyn i Ysgol Uwchradd Llanidloes!

Cofion cynnes,

*B. Harrison*

Cydlynydd Pontio
Pennaeth Blwyddyn 7